UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Amodau Gwaith

# Gweithio'n rhan amser: Tâl ac amodau gwaith athrawon ysgol

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

# Gweithio'n rhan amser: tâl ac amodau gwaith athrawon ysgol

Mae'r daflen hon yn cynnig arweiniad ar faterion yn ymwneud â thâl ac amodau gwaith athrawon rhan amser. Mae'n berthnasol os ydych eisoes yn gweithio ar gontract rhan amser neu os ydych yn ystyried gwneud cais i newid o gontract llawn amser i un rhan amser. Gweler taflen UCAC **Gwneud cais i weithio'n hyblyg** am wybodaeth lawn am eich hawliau a chyngor ar sut i gyflwyno'r cais.

**Noder y bydd unrhyw newid i'r cytundeb o weithio'n llawn amser i ran amser yn newid parhaol oni bai fod y cytundeb yn nodi ei fod yn newid dros dro yn unig.** Gall athro wneud cais am gytundeb rhan amser dros dro, ac mae hawl gan Gorff Llywodraethu i ganiatáu cytundeb o'r fath, yn datgan y bydd yr athro'n dychwelyd i gontract llawn amser wedi cyfnod penodedig.

Mae UCAC yn cynghori unrhyw athro sy'n newid o gytundeb llawn amser i un rhan amser i gael cadarnhad bod y cytundeb yn barhad o'r cytundeb gwreiddiol, er enghraifft, bod 60% o'r hen swydd yn parhau ac nid yn swydd 'newydd' dan gytundeb gwahanol. Gallai hyn ddiogelu hawliau'r athro mewn nifer o sefyllfaoedd.

Yr egwyddor sylfaenol a chanolog i'w dilyn yw sicrhau nad yw athrawon rhan amser yn cael eu trin mewn unrhyw fodd yn llai ffafriol nag athrawon llawn amser.

## 1. Oriau Gwaith

Mae'n ofynnol i athrawon rhan amser fod ar gael am y cyfnod *pro rata* o'r 1265 o oriau cyfeiriedig *(directed time)* y flwyddyn y disgwylir i athrawon llawn amser fod ar gael. Er enghraifft, byddai disgwyl i athro sydd ar gytundeb 0.4 fod ar gael ar gyfer 40% o 1265 awr, 506 awr. Mae'r amser yma'n cynnwys addysgu, mynychu cyfarfodydd, dyletswyddau egwyl (ond dim egwyl cinio), hyfforddiant mewn swydd ac unrhyw weithgaredd lle mae'r athro dan gyfarwyddyd y Pennaeth i fod ar gael i weithio. Sylwer mai nodi uchafswm a wneir; nid oes rheidrwydd ar ysgolion i sicrhau fod athrawon, llawn neu ran amser, yn cael eu cyfarwyddo i weithio'r holl oriau hyn.

Yn ogystal â'r oriau cyfeiriedig rhaid i athrawon rhan amser, fel rhai llawn amser, weithio oriau ychwanegol rhesymol y bydd eu hangen er

mwyn galluogi'r athro i gyflawni dyletswyddau proffesiynol mewn ffordd effeithiol. Ni ddylai’r pwysau gwaith ar athrawon rhan amser olygu y byddai rhaid iddynt weithio oriau ychwanegol afresymol o gymharu â’r hyn fyddai’n ddisgwyliedig gan athrawon llawn amser.

Mae UCAC o’r farn y dylai athrawon rhan amser fod yn cael eu cyflogi mewn blociau amser addas. Dylai Penaethiaid drafod gydag athrawon rhan amser pa fath o amserlen sy’n dderbyniol ganddynt a dylid gwneud pob ymdrech rhesymol i gwrdd â gofynion yr athro. Er enghraifft: cael gweithio contract 0.6 dros dri diwrnod neu gontract 0.5 ar foreau yn unig os mai dyna ddymuniad yr athro. Ni ddylai ysgol glymu athro am rannau o’r dydd dros wythnos gyfan gan y gallai hyn effeithio ar gyfleoedd i gael gwaith rhan amser arall, a gallai gael effaith ar gostau megis talu am ofal plant. Gallai gosod disgwyliadau afresymol ar athrawon rhan amser o ran patrwm yr amserlen gael ei ystyried yn driniaeth anffafriol.

Mae UCAC yn gwrthwynebu’n gryf iawn unrhyw fwriad i gyflogi athrawon rhan amser am ran o sesiwn yn unig. Ar adegau, a than rai amgylchiadau arbennig, gallai athro gytuno i gael ei g/chyflogi am gyfnod sy’n llai na bore neu brynhawn cyfan (e.e. gofynion gofal, anabledd, hwylustod personol) ond dylai hynny fod yn eithriad ac wedi’i gytuno gan y ddwy ochr.

## 2. Hyfforddiant mewn swydd (HMS)

I gydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol, mae’n ofynnol i gyflogwyr sicrhau fod gan athrawon rhan amser yr un cyfle â rhai llawn amser i dderbyn hyfforddiant mewn swydd yn ystod eu horiau gwaith. Byddai methiant i sicrhau hynny’n gyfystyr â thrin gweithwyr rhan amser mewn modd anffafriol.

Os bydd HMS yn cael ei gynnal ar ddiwrnod pan nad yw athro fel arfer yn gweithio, ni all yr ysgol fynnu presenoldeb. Dylid talu, neu gynnig diwrnod *in lieu*, i unrhyw athro sy’n cytuno i fynychu HMS neu i weithio ar ddiwrnod pan nad yw fel arfer yn gyflogedig. Dylai ysgolion ystyried sefyllfa athrawon rhan amser wrth gynllunio eu rhaglen HMS er mwyn rhoi cyfle i’r athrawon hynny gael derbyn hyfforddiant.

## 3. Cyfarfodydd amrywiol

Mae’r *Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol* yn nodi’n glir nad oes hawl disgwyl i athro rhan amser fynychu’r gwaith i unrhyw bwrpas ar ddiwrnod nad yw’n gyflogedig fel arfer.

Serch hynny, mae’r Ddogfen yn nodi efallai y bydd yn ofynnol i athro rhan amser gyflawni dyletswyddau, ac eithrio addysgu disgyblion, y tu

allan i sesiynau ysgol ar ran o ddiwrnod pan nad ydynt yn gyflogedig, os ydynt yn gyflogedig am ran arall o'r diwrnod hwnnw. Golyga hyn y gallai ysgol ddisgwyl i athro rhan amser fynychu cyfarfod staff ar ddiwedd prynhawn neu gyfarfod rhieni fin nos pan fo'r athro yn gweithio yn y bore'n unig. Ond mae'r cyngor oddi wrth yr adran sy'n gyfrifol am y Ddogfen yn pwysleisio:

- y dylid ceisio osgoi sefyllfa o'r fath
- mai anaml y dylai ddigwydd
- bod angen i ysgolion drefnu eu hamserlen ar gyfer cyfarfodydd staff a gyda rhieni ymlaen llaw gan ystyried oriau gwaith athrawon rhan amser

Barn UCAC yw y dylai ysgolion wneud pob ymdrech i lunio amserlenni ar gyfer cyfarfodydd staff, cyfarfodydd rhieni ac hyfforddiant mewn swydd yn unol â phatrymau gwaith athrawon rhan amser.

## 4. Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (Amser CPA)

Mae gan athrawon rhan amser hawl statudol i amser CPA *pro rata*, sef lleiafswm o 10% o'u hamser addysgu. Os oes gan athrawon rhan amser gyfrifoldebau arwain neu reoli, mae ganddynt yr un hawliau ag athrawon llawn amser, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, i gael amser ychwanegol yn ystod sesiynau ysgol er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

## 5. Hawl i ddyrchafiad

Mae gan athrawon rhan amser yr un hawliau i gael eu hystyried ar gyfer dyrchafiad ag athrawon llawn amser. Byddai diystyru athro rhan amser yn gyfystyr â thriniaeth anffafriol anghyfreithlon. Dylai ysgolion sicrhau bod athrawon rhan amser yn derbyn yr un wybodaeth ag athrawon llawn amser am gyfrifoldebau a swyddi a hysbysebir yn fewnol.

## 6. Diswyddo oherwydd gormodedd (*redundancy*)

Ni ddylid trin gweithwyr rhan amser yn wahanol i athrawon llawn amser os oes angen diswyddo oherwydd gormodedd. Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn derbyn yr un cynigion ar gyfer ymddeol yn gynnar, diswyddo gwirfoddol neu gwtogi oriau'n wirfoddol ag athrawon llawn amser. Dylai ysgolion sicrhau bod y meini prawf a ddefnyddir i ddethol ar gyfer diswyddo yn wrthrychol ac na chaiff gweithwyr rhan amser eu trin yn anffafriol. Byddai methiant i wneud hynny'n golygu y gallai ysgol wynebu achos cyfreithiol ar ddau gyfrif – o drin gweithwyr rhan amser yn llai

ffafriol ac o wahaniaethu annheg ar sail rhyw gan fod mwyafrif athrawon (yn arbennig rhai rhan amser) yn fenywod.

## 7. Hawliau Cyflog

### Symud i fyny'r Brif Raddfa Gyflog a'r Raddfa Gyflog Uwch

Mae pob ysgol yn llunio ei pholisi cyflog ei hun. Nid oes cysylltiad bellach rhwng perfformiad a symud i fyny'r Brif Raddfa Gyflog, felly gall athrawon rhan amser a llawn amser ddisgwyl symud i fyny grisiau'r brif raddfa gyflog ar sail blwyddyn o brofiad oni bai fod yr athro yn wynebu proses medrusrwydd.

Dylai athrawon rhan amser gael yr un cyfleoedd ag athrawon llawn amser i wneud cais i symud i'r Raddfa Gyflog Uwch ac i symud i fyny'r raddfa yn ôl polisi cyflog yr ysgol.

### Cyfrifo tâl athrawon rhan amser

Caiff athrawon rhan amser eu talu *pro rata*, hynny yw, yn ôl y gyfran gyfatebol o'r cyflog a'r lwfansau y byddent yn eu hennill pe baent yn gyflogedig yn llawn amser.

Mae'r *Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol* yn cynnwys fformiwla statudol y mae'n rhaid i bob ysgol ac awdurdod lleol ei defnyddio. Byddai cyflogwr yn torri'r gyfraith trwy beidio â defnyddio'r fformiwla hon.

Mae'r fformiwla'n seiliedig ar *Amserlen Addysgu Wythnosol yr Ysgol (AAWY)*, sef y cyfnod o amser crynswth yn amserlen yr ysgol pan fydd disgyblion yn cael eu haddysgu fel arfer.

Yn ogystal ag amser addysgu yn y dosbarth mae *AAWY* yn cynnwys amser CPA ac unrhyw gyfnodau digyswllt eraill ond nid yw'n cynnwys amser gwasanaethau, cofrestru, egwyl a chinio. Sylwer nad yw hyn yn golygu nad oes raid i athrawon rhan amser gofrestru, mynychu gwasanaethau neu wneud dyletswydd egwyl.

Os yw oriau addysgu arferol disgyblion yn 3 awr yn y bore a 2 awr yn y prynhawn byddai *AAWY* yn 25.

- pe byddai athro rhan amser yn cael ei g/chyflogi am ddau ddiwrnod cyfan, byddai'n gweithio 10 awr o AAWY felly byddai'n derbyn tâl sy'n cyfateb i 40% o'r cyflog llawn amser cyfatebol
- pe byddai athro rhan amser yn cael ei g/chyflogi am dri bore a dau brynhawn, byddai'n gweithio 13 awr o AAWY felly byddai'n derbyn tâl sy'n cyfateb i 52% o'r cyflog llawn amser cyfatebol.

Os oes amrywiaeth o fewn ysgol o beth yw *AAWY* (e.e. llai o oriau addysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen na Chyfnod Allweddol 2) a bod athro rhan amser yn addysgu'r ddau gyfnod, byddai'n rhaid cyfrifo'r ddwy elfen ar wahân er mwyn sicrhau tâl teg i'r athro.

Cyflwynwyd y fformiwla hon i'r *Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol* fel dull teg a chyson o gyfrifo cyflog athrawon rhan amser ac i osgoi bod ysgolion yn cyflogi athrawon fesul awr.

## Hawliau Pensiwn

O 1 Ionawr 2007 ymlaen mae athrawon rhan amser yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Pensiwn Athrawon ac mae unrhyw gyfnodau o weithio yn cyfrif o fewn y cynllun. Cyn hynny, nid oedd athrawon rhan amser yn cael eu cynnwys yn awtomatig; roedd yn rhaid iddynt *optio i mewn* i'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Mae gan bob athro, rhan amser neu lawn amser, yr hawl i *optio allan*. Gan fod manteision sylweddol o fod yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, byddai UCAC yn cynghori aelodau i feddwl yn ofalus ac i geisio cyngor arbenigol cyn eithrio o'r cynllun.

Penderfynir ar faint pensiwn athro yn ôl hyd y gwasanaeth a'r cyflog terfynol neu gyfartaledd cyflog dros eich gyrfa. Mae hyn yn dibynnu ar delerau'r cynllun pensiwn sy'n berthnasol i chi

Gweler taflen UCAC ***Ymddeoliad a'ch pensiwn*** am fanylion ar sut y cyfrifir y pensiwn.

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Roger Vaughan, Swyddog Maes y Gogledd, roger@ucac.cymru
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes, ywain@ucac.cymru

**Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:**

- Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, ioan@ucac.cymru
- Iona Davies, Swyddog Polisi, iona@ucac.cymru

**Diweddarwyd: Tachwedd 2023**


**UCAC**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru